ARHOLIADAU 360°

Ffocws ar...
Beth sy'n digwydd yn ystod y gwaith marcio?

CYMWYSTERAU CYMRU QUALIFICATIONS WALES

Rydw i newydd sefyll fy arholiad, beth sy'n digwydd nawr?

Ar ddiwedd yr arholiad, mae'r goruchwylwyr yn pacio'r papurau gorffenedig yn ddiogel ac yn eu hanfon yn uniongyrchol at i ganolfan sganio neu i arholwr CBAC.

Ar gyfer arholiadau sy'n cael eu marcio ar sgrin, mae'r llyfrynnau ateb – rydyn ni'n galw rhain yn 'sgriptiau' – yn cael eu hanfon i ganolfan sganio ddiogel. Ar ôl eu sganio, caiff copïau digidol eu hanfon trwy system ar-lein ddiogel at arholwyr CBAC i'w marcio.

Ar gyfer arholiadau sy'n cael eu marcio ar bapur, caiff y sgriptiau eu hanfon yn uniongyrchol o'r ysgol at arholwyr unigol.

Pwy sy'n marcio fy ngwaith?

Mae pob arholwr wedi cael ei hyfforddi ar sut i ddefnyddio'r cynllun marcio'n gywir mewn cynadleddau hyfforddi, naill ai wyneb yn wyneb neu ar-lein.

Ydy pob arholwr yn rhoi'r un marciau?

Cyn bod arholwyr yn gallu dechrau marcio, rhaid iddyn nhw farcio sampl o sgriptiau yn gyntaf, ac yna mynychu cyfarfod safoni CBAC. Caiff y cyfarfod ei arwain gan yr uwch-arholwyr sydd wedi llunio'r cwestiynau arholiad.

Yn y cyfarfod, mae arholwyr yn adolygu ac yn trafod y cynllun marcio yn ofalus er mwyn sicrhau eu bod i gyd yn gallu ei ddefnyddio'n gyson. Er enghraifft, os bydd ateb annisgwyl yn cael ei roi i gwestiwn, byddan nhw'n cytuno faint o farciau i roi i atebion tebyg eraill.

Drwy gydol y cyfnod marcio, caiff arholwyr eu monitro i wneud yn siŵr eu bod yn marcio'n gywir ac yn gyson. Mae'r prosesau sicrhau ansawdd ar gyfer marcio ar sgrin ac ar bapur ychydig yn wahanol.

Ar gyfer arholiadau sy'n cael eu marcio ar sgrin

Mae llawer o arholiadau yn cael eu marcio ar sgrin. Mae arholwyr yn cael cwestiynau penodol i'w marcio, felly ni fydd arholwr fel arfer yn gweld holl atebion dysgwr. Mae hefyd yn ei gwneud yn annhebygol iawn y bydd arholiadau ysgol yn cael eu marcio gan un arholwr.

Gyda marcio ar sgrin, mae gwaith arholwr yn cael ei wirio'n awtomatig. Bob hyn a hyn, bydd arholwr yn cael cwestiwn i'w farcio sydd eisoes wedi'i farcio gan uwch-arholwr. Nid yw'r arholwr yn gwybod pa gwestiynau yw rhain. Os yw eu marciau'n wahanol i rai'r uwch-arholwr, yna bydd y system yn eu hatal nhw ar unwaith rhag marcio a bydd yr un mesurau rheoli ansawdd yn berthnasol ag ar gyfer arholiadau sy'n cael eu marcio ar bapur.

Ar gyfer arholiadau sy'n cael eu marcio ar bapur

Rhaid i arholwyr anfon sampl ar hap o'r sgriptiau maen nhw wedi'u marcio at uwch-arholwr i'w gwirio. Mae'r uwch-arholwr yn rhoi adborth ar waith marcio'r arholwr.

Os nad yw arholwr yn marcio'n gywir neu'n gyson, bydd yr arholwr yn cael ei atal rhag marcio. Yna bydd eu sgriptiau'n cael eu rhoi i arholwr gwahanol i'w marcio.

Caiff unrhyw sgriptiau maen nhw eisoes wedi'u marcio eu gwirio ac, os oes angen, eu marcio eto.